# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Carno, Powys) (Cyfyngiadau A Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal y safonau diogelwch ar gyfer defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo'r gwaith o osod wyneb newydd yn cael ei wneud ar Gefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng Ngharno yn Sir Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, mewn grym o 5 Rhagfyr 2011 i 16 Rhagfyr 2011 neu hyd nes y bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol. Disgwylir i'r gwaith gael ei wneud bob dydd rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfynau cyflymder o naill ai 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U4604 (Gerddi Cledan) i ganolbwynt ei chyffordd â'r U4601 i Danllyn. Bydd terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 30 mya yn gweithredu dros y cyfan o'r darn penodedig o'r gefnffordd a bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys pan fydd gweithio mewn confoi mewn grym arno ar unrhyw ddiwrnod penodol;

ii. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai hynny sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd tra bo gweithio mewn confoi mewn grym arno;

iii. Gwahardd cerbydau sy'n lletach na 2.5 metr, ac eithrio'r rhai hynny sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd. Y llwybr amgen ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd dilyn yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Glantwymyn a thua'r gogledd i Gylchfan Mallwyd. Cymryd yr A458 tua'r dwyrain i'r Trallwng, yr A483 tua'r de-orllewin i'r Drenewydd a'r A489 tua'r gorllewin i Gaersŵs i ailymuno â'r A470 i'r gogledd – orllewin i Garno. Y llwybr amgen ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd i'r gwrthwyneb.

Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol yn ystod y dyddiau a bennir uchod yn unig. Er hyn, bydd yn parhau'n ddilys am chwe mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2011)

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## The A470 Trunk Road (Carno, Powys) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibitions) Order 2011

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst resurfacing works are undertaken on the Caersws – Machynlleth Trunk Road (A470) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Carno in the County of Powys.

The restrictions and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to be in force from 5 December 2011 until 16 December 2011 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are expected to take place daily between 08:00 hours and 18:00 hours.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the U4604 (Gerddi Cledan) to the centre-point of its junction with the U4601 to Tanllyn. Either a 40 mph or 30 mph speed limit will operate over the full extent of the specified length of the trunk road and the 10 mph speed limit will apply when convoy working is in force on any given day;

ii. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from overtaking in the length of the trunk road whilst convoy working is in force;

iii. Prohibit vehicles with widths greater than 2.5 metres, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding in the length of the trunk road. The alternative route for southbound traffic will be to follow the A470 north-westwards to Cemmaes Road Roundabout and north to Mallwyd Roundabout then take the A458 eastbound to Welshpool, the A483 south-westwards to Newtown and the A489 westwards to Caersws to rejoin the A470 north westwards to Carno. The alternative route for northbound traffic will be vice versa.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2011).

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE